GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

**Llawdriniaeth Micrograffig Mohs**

**(Cyfarwyddiadau Cyn Llawdriniaeth)**

**Yr Adran Ddermatoleg**

---

1. Os ydych yn cymryd Aspirin neu Warfarin, rhowch wybod i'ch meddyg neu nyrs os nad ydych wedi cael unrhyw gyfarwyddiadau arbennig eto.

2. Parhewch i fwyta ac yfed fel arfer yn ystod y diwrnodau cyn y llawdriniaeth. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cael brecwast ar fore eich llawdriniaeth.

3. Gollwch eich gwallt y noson gynt, neu ar fore'r llawdriniaeth. Efallai na allwch gael cawod am 24-48 awr ar ôl y llawdriniaeth.

4. Gwisgwch ddillad cyffyrddus y gellir eu tynnu'n rhwydd dros eich pen ar ôl y llawdriniaeth.

5. Tynnwch unrhyw golur sydd ar ardal y llawdriniaeth ar ddiwrnod y llawdriniaeth.

6. Trefnwch fod rhywun gyda chi i fynd â chi adref ar ôl y llawdriniaeth. Rydym yn argymell ichi beidio â bod ar eich pen eich hun y noson gyntaf ar ôl y llawdriniaeth.

7. Osgowch ysmygu am bythefnos cyn ac ar ôl eich llawdriniaeth oherwydd y gall ysmygu amharu'n ddifrifol ar brosesau gwella'r clwyf.

8. Mae rhan helaeth yr amser yn ystod llawdriniaeth Mohs yn cael ei threulio yn aros am brofion labordy a microsgop, felly dewch â rhywbeth i ddarllen os dymunwch. Gallwch ddod â byrbrydau. Gall ffrind neu berthynas aros gyda chi yn ystod y diwrnod.

***Rhowch wybod am unrhyw newidiadau yn eich iechyd cyn y llawdriniaeth i'r meddyg neu'r nyrs.***

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/**
**This document is available in English".**